

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 30ain Ionawr, 2017

PRESENNOL

Cyng. Nerys Dobson (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Eifion Williams, Cyng. John Owen, Cyng. Mike Rayner, Cyng. Alun Morris, Delyth Algieri (clerc).

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Dewi Wynne Jones, Cyng. Dewi Arfon Jones, Cyng. Austin Roberts

CYFLWYNIAD GAN MR GWYN MOSELEY – CYFOETH NATURIOL CYMRU

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Gwyn Moseley o Gyfoeth Naturiol Cymru ar Gynllun Llifogydd Cymunedol Maenan a rôl Warden Llifogydd. Rhannwyd dogfen yn amlinellu gwaith a rôl y Warden Llifogydd a sut y byddent yn gallu cyfathrebu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r Gwasanaethau Brys.

Eglurodd Mr Moseley beth mae'r Codau Rhybuddion Llifogydd yn ei olygu, a pha gamau ddylai'r Wardeiniaid Llifogydd eu cymryd os ydynt yn derbyn y negeseuon hyn. Nododd fod yna wahanol fath o lefel rhybuddion sef- Rhybudd Llifogydd, Rhybudd Llifogydd Difrifol, Diddymu'r Rhybudd. Eglurodd hefyd y gall pobol Maenan hefyd gofrestru i dderbyn neges Llifogydd bydd yn neges yma yn generig ac yn cael ei gyhoeddi pan mae yna bosibilrwydd o lifogydd o fewn dalgylch yr Afon Conwy.

Esboniodd Mr Moseley beth fydd rol y Warden Llifogydd.

- Cofrestru i dderbyn negeseuon Rhybuddion Llifogydd
- Penodi Uwch Warden Llifogydd a Warden Llifogydd Cynorthwyol
- Ymgysylltu a thrigolion
 - Sicrhau bod trigolion yn ymwybodol bod yna Gynllun Llifogydd Cymunedol ar gyfer Maenan.
 - Annog trigolion i gofrestru i dderbyn negeseuon Rhybuddion Llifogydd
 - Egluro ystyr y codau Rhybuddion Llifogydd.
 - Annog trigolion i gymryd cyfrifoldeb i amddiffyn eu heiddo.
- Cysylltu gydag Awdurdodau perthnasol.

Yn ogystal hefyd bydd angen i'r Warden Llifogydd cynorthwyo pob awdurdod sydd yn ymateb i lifogydd gyda dosbarthu gwybodaeth. Mynychu cyfarfodydd a chynnal y Cynllun Llifogydd Cymunedol. Adrodd ar faterion perygl lifogydd i'r awdurdod perthnasol. Ymateb i negeseuon rhybuddion Llifogydd yn ôl yr angen. Cadw cofnod o ddigwyddiad wrth iddynt ddigwydd. Diolchodd Mr Gwyn Moseley am y gwahoddiad i ddod draw at y Cyngor Cymunedol a gofynnodd i unrhyw un sydd â diddordeb o ddod yn Warden os ydi rhywun yn gwybod am rywun arall o'r ardal yn awyddus i gymryd y rol i anfon neges iddo drwy Mrs Delyth Algieri y clerc.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Moseley am ei gyflwyniad a buasai'r Cyngor yn dod mewn cysylltiad os bydd gan unrhyw un gyda diddordeb yn y rol y Warden Llifogydd.

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 12fed o Ragfyr, 2016.

Materion yn codi o'r cofnodion

CAE CHWARAE MAENAN

Nododd Cyng John Owen a Cyng Mike Rayner eu bod am wneud trefniadau i osod canllaw yng Nghae Chwarae Maenan pan fydd y tywydd yn caniatáu.

MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH

Cyng John Owen ei fod wedi edrych ar y ffens o amgylch y maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan, mi fydd yn gosod ambell i bolyn i gryfau y ffens pan fydd tywydd yn caniatáu.

CYNNAL A CHADW MIS RHAGFYR

1. Cais i gael Bin Baw Cwn wrth y giat y fynwent Penrhiw, Llanddoged.
Cafwyd gwybodaeth gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fod yr Awdurdod ddim mewn sefyllfa i osod a gwagio biniau newydd o ganlyniad i'r cyfyngiadau ariannol presennol.
Ond bydd cais y cyngor yn cael ei gadw ar ffeil, a bydd yn cael ei ystyried os y bydd cyllid ar gael.
2. Angen llenwi i mewn y twll yn y ffordd wrth mynedfa y gait i'r fynwent Penrhiw Llanddoged.
Bydd tyllau ger y fynedfa yn cael eu llenwi pan fydd adnoddau ar gael.
3. Cyng Austin Roberts wedi cael cais i gael cyfarfod ar safle gyda Ms Rachael Burke yn Maenan ynglŷn â cherrig yn rhydd ar y Cored(weir) sydd yn yr afon wrth Maenan Abbey.
Mi fydd yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.
Cafwyd gwybodaeth gan Cyng. Austin Roberts fod y cyfarfod gyda Ms Rachael Burke ddim wedi cymryd lle gan ei bod salwch teuluol.

GOSOD GAMFA NEWYDD AR LLWYBR RHIF 5 WRTH TYN Y CELYN, MAENAN

Cyng Hefin Martin wedi derbyn galwad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyda neges eu bod am osod y gamfa ar lwybr cyhoeddus rhif 5 yn y flwyddyn newydd.

CYNLLUNIO

- Cynllunio - Cais rhif 0/43611 - Adeiladu Ystafell Wydr ar ochr ddeheuol ty - Mr Alex Brown, Ty Capel Soar, Rhiw Dafnau Isaf, Maenan, Llanrwst, Conwy LL26 0YE.

Ar ol trafodaeth pasiwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio yma.

GOSOD PRESEPT 2017/2018

Rhanwyd taflen o amcangyfrif o gostau gofynion y presept ar gyfer y flwyddyn 2017/18.

Trafodwyd y presept a pasiwyd i godi y presept i fyny o £4,000 i £4,500 gan fod y Cyngor angen talu am etholiadau yn y flwyddyn ariannol 2017/18.

Y GYLLIDEB

Cafwyd adolygiad o'r gyllideb am y flwyddyn 2016/17 yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol. Arwyddwyd y Cadeirydd y gyfriflen Banc fel arfer a chadarnhawyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r gyllideb.

GOHEBIAETH

1. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – llythyr gofynion presept 2017/18.
2. Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol – Cofnodion Grwp Partneriaeth Llifogydd Dyffryn Conwy.
3. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Ymgynhoriad : CDL135 Diogelu Safleoedd Cyflogaeth.
4. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Ymgynhoriad Ceisiadau Cynllunio – Awdurdod Lleol. Llythyr yn hysbysu y bydd ceisiadau cynllunio yn cael ei anfon yn electroneg o 1af o Ebrill, 2017.

CYNNAL A CHADW

1. Cafwyd gwybodaeth fod Cangen y Banc lleol HSBC yn mynd i gau lawr yn Llanrwst. Pasiwyd i anfon llythyr at HSBC i ddangos ein pryder fod y banc yn cau.
2. Angen glanhau y ffordd ar yr allt rhwng 'Larkstoke Cottage' a Recotry Llanddoged.
3. Concrit wedi dod yn rhydd yn y ffos ar allt Penllan, Llanddoged.
4. Achos o 'Flytyping' rhwng Wigfa a Rhiw Dafnau, Maenan.
5. Angen ysgubo y dail ar allt Penrhwylyfa, Maenan y ffordd yn llithrig.
6. Cloddiau yn tyfu allan i'r ffordd ar ffordd Trwyn Swch, Llanddoged wrth Cae Cety, Llanddoged- loriau yn bachu yn y cloddiau.